Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD GWENER, 27AIN HYDREF, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**


Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 20/10/2023)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflawni Busnes |
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi, 2023 fel rhai cywir.

## 5. CYD-BWYLLGOR BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU - CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2023 — 8 - 27

Sioned Owen, Archwilio Cymru, i gyflwyno'r adroddiad.

## 6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 2 — 28 - 58

Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau, i gyflwyno'r adroddiad.

## 7. CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD (CBC) - YMESTYN SECONDIAD RHAN-AMSER CYFARWYDDWR PORTFFOLIO UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU FEL PRIF WEITHREDWR DROS DRO Y CBC — 59 - 61

Dylan Williams, Prif Weithredwr Arweiniol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer y Bwrdd Uchelgais, i gyflwyno'r adroddiad.

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd â

thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 9. RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH - ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Robyn Lovelock, Rheolwr Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, i gyflwyno'r adroddiad (sydd wedi'i gylchredeg i Aelodau'r Bwrdd yn unig).

## 10. DIWEDDARIAD I ACHOS BUSNES Y PORTFFOLIO

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio a Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau, i gyflwyno'r adroddiad (sydd wedi'i gylchredeg i Aelodau'r Bwrdd yn unig).

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**22/09/23**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Wrecsam) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Andrew Farrow (Cyngor Sir y Fflint), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), David Fitzsimon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion yn bresennol -

Awdurdod Lletya:- Dewi A. Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru:- Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol) a David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo).

Sylwedydd – Dewi Williams (Llywodraeth Cymru).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint);
- Y Cynghorydd Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) gyda'r Cynghorydd Barry Mellor yn dirprwyo;
- Yana Williams (Coleg Cambria);
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda'r Athro Paul Spencer yn dirprwyo;
- Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda David Fitzsimon yn dirprwyo;
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo
- Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) gydag Andrew Farrow yn dirprwyo.

Croesawodd y Cadeirydd y dirprwyon i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf, 2023 fel rhai cywir.

## 5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2023-24 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol).

**PENDERFYNWYD**

**(1) Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Awst 2023 y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 1 i'r adroddiad).**

**(2) Nodi a derbyn diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).**

**(3) Cytuno ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 3).**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

(1) Nodi tanwariant a ragwelir o £266,683 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2023/24 sydd yn bennaf oherwydd llwyddiant y Swyddfa Rheoli Portffolio gyda'u cais Cronfa Ffyniant Gyffredin rhanbarthol. Bydd y tanwariant terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r swm a hawlir o grant y fargen dwf a'r gronfa a glustnodir.

(2) Nodi llithriad pellach ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £7.13m yn 2023/24 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy o £11.25m ar gyfer y flwyddyn.

**TRAFODAETH**

Nodwyd yr angen i gydnabod a gwerthfawrogi gwaith y tîm yn tynnu arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i lawr.

Nodwyd, er bod y sefyllfa bresennol yn sefydlog, bod y Bwrdd yn nodi'r heriau ariannol sy'n ei wynebu i'r dyfodol, ac y bydd rhaid cynnal trafodaethau hynod o anodd dros y misoedd nesaf.

Holwyd a oedd y llog gwell na'r disgwyl ar y balansau eleni yn ffactor sylweddol wrth symud ymlaen. Mewn ymateb, eglurwyd bod y llog yn debygol o fod dros £2m eleni, ond y golygai hynny y byddai ein costau benthyca yn uwch yn y dyfodol, ac y byddai'r llog yn cyfrannu tuag at hynny.

## 6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Oherwydd bod y Cadeirydd yn cael problemau technegol, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Mark Pritchard, yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau).

**PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gydbwyllgorau ffurfiol.

Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cydbwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Bwrdd Uchelgais.

**TRAFODAETH**

Gan gyfeirio at y tabl ar dudalen 13 o'r fersiwn Saesneg o'r Datganiad Llywodraethu, nodwyd bod yna ddwy seren wrth ochr yr Asesiad Hyder Cyflawni Ambr ar gyfer Porth Caergybi, ond dim esboniad pellach ynglŷn â hynny. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod y ddwy seren yn cyfeirio at y ffaith ein bod, ar y pryd, yn aros i Lywodraeth Cymru arwyddo'r Gorchymyn Adolygu Harbwr, oedd yn cael ei weld gan y tîm fel risg sylweddol y tu allan i reolaeth y prosiect ei hun.
- Bod Llywodraeth Cymru bellach wedi arwyddo'r Gorchymyn, ac felly bod y risg honno wedi'i dileu.
- Mai unig bwrpas yr un seren wrth ochr y cyfeiriad at Adolygiad Porth 2 AAP ar gyfer y Prosiect yr Ychydig % Olaf oedd i egluro ystyr AAP, ond nad oedd yr esboniad hwnnw wedi'i gynnwys yn y ddogfen chwaith.
- Y byddai'r sêr hyn yn cael eu hychwanegu i'r fersiwn derfynol o'r Datganiad.

Nodwyd nad oedd yna unrhyw sêr gyferbyn â'r prosiectau yn y fersiwn Gymraeg o'r Datganiad, ac eglurwyd y byddai'r tîm yn diwygio'r fersiwn honno yn ogystal, ac yn sicrhau cysondeb rhwng y ddwy iaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 10.50yb.

<u>Cadeirydd</u>

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Cynllun Archwilio Manwl 2023

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3786A2023



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.  Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod.  Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.  Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.  Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol.  Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.  We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau






# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 8 |
| Perthnasedd datganiadau ariannol | 9 |
| Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol | 10 |
| Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt | 11 |
| Amserlen archwilio datganiadau ariannol | 12 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 13 |
| Ffi a'r tîm archwilio | 14 |
| Ansawdd archwilio | 16 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – newidiadau allweddol i Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 a'u heffaith | 17 |

# Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Archwilio Manwl hwn yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'n nodi'r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2023.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

# Fy nghyfrifoldebau archwilio

Rwyf yn cwblhau gwaith bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Rwyf yn archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru (y Cyd-Bwyllgor) i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.
- Rhaid i'r Cyd-Bwyllgor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid imi fod wedi fy modloni ei fod wedi gwneud hyn.

# Archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol imi gyflwyno tystysgrif ac adrodd ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' ac asesiad ynghylch a yw'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei baratoi yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'ch datganiadau ariannol a'm gwybodaeth am yr Awdurdod.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyd-Bwyllgor, rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen).

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Nodir y lefelau pan fyddaf yn barnu camddatganiadau o'r fath i fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

# Gwaith archwilio perfformiad

Rwyf yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau[1] fel Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad lleol yn parhau i gael ei darparu drwy rhaglen o brosiectau lleol pwrpasol

[1] Pan fyddwn yn ymgymryd â gwaith archwilio o dan ein pwerau a'n dyletswyddau statudol, mae'n bosibl y byddwn yn casglu gwybodaeth gan gyrff cyhoeddus sy'n cynnwys rhywfaint o ddata personol. Mae ein hysbysiad prosesu teg archwilio cyffredinol yn esbonio'r hyn a wnawn â data personol, a sut y gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

Cynhelir y rhan fwyaf o’m gwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).  Sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf. Sefydliad anllywodraethol yw ef sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.

# Cipolwg ar eich archwiliad

**Bydd fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar eich risgiau a meysydd pwyslais eraill**

Mae fy nghynllun archwilio wedi nodi'r risgiau canlynol:

Risg sylweddol i ddatganiadau ariannol

- Gwrth-wneud gan y Rheolwyr

Meysydd eraill y bydd y gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt
- Prisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn
- Gwarged cronfa bensiwn

**Bydd fy archwiliad o berfformiad yn cynnwys:**

- Byddwn yn ymgymryd ag un darn o waith lleol, sef cynnal asesiad Sicrwydd a Risg. Pwrpas y gwaith yw llywio gwaith archwilio yn y dyfodol.

**Perthnasedd**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | £73,380 |
| Trothwy adrodd | £3,669 |

# Perthnasedd datganiadau ariannol

## Perthnasedd £73,380

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai achosi i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain fel arall.

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio:

- Gwariant gros 2022-23 sef £3.669 miliwn
- Canran perthnasedd o 2%

Rwyf yn adrodd unrhyw gamddatganiad sy'n fwy na lefel ddibwys (a bennir ar berthnasedd o 5%) i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Meysydd o ddiddordeb penodol

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

- Cydnabyddiaeth uwch-swyddogion £1,000
- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig – £10,000 (Unigolion), £73,380 (Cyrff Eraill)

# Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg cynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio eraill.  Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni roi mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn.

**Arddangosyn 1: risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol**

| Risg sylweddol | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Gwrth-wneud gan y Rheolwyr**<br>Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol. |

Nid yw'r tîm archwilio wedi cwblhau pob rhan o'r asesiad risg eto. Os bydd unrhyw risgiau ariannol sylweddol pellach yn codi ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, byddwn yn hysbysu'r swyddog A151 a'r Cyd-Bwyllgor drwy ei gadeirydd ac yn ailgyhoeddi fy Nghynllun Archwilio Manwl os bydd angen.

# Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

Cyflwynaf risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a nodwyd. Er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau sylweddol fel yr uchod, hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

**Arddangosyn 2: meysydd eraill y canolbwyntir arnynt**

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Prisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn**<br>Mae rhwymedigaethau cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) fel yr adlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif materol. Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun i lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i fân addasiadau yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor i'r actiwari er mwyn amcangyfrif y rhwymedigaeth;<br>• profi cywirdeb rhwymedigaethau net y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari; ac<br>• asesu pa mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghori (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen. |
| **Gwargedion Cynllun Pensiwn**<br>Yn dilyn y prisiad ariannu teirblwydd o gronfeydd pensiwn LGPS ar 31 Mawrth 2022, mae Rhestr Ganlyniadau Safon Ryngwladol ar Archwilio 19 y Cyd-Bwyllgor gan yr Actiwari yn dangos gwarged. Mae cydnabod gwargedion cronfeydd pensiwn yn gymhleth. Mae angen ystyried y buddiannau economaidd sydd ar gael yn y dyfodol o ran ad-daliadau o'r cynllun, neu ostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw rai o reolau'r cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr wneud isafswm taliadau ariannu i'r cynllun. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• deall proses yr actiwari ar gyfer cyfrifo'r gwarged sy'n cael ei gydnabod ar 31 Mawrth 2023; ac<br>• ystyried a ellir cydnabod y gwarged o dan IFRIC 14. |

# Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Nodaf isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon ac allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio Manwl 2023 | Medi 2023 | Hydref 2023 |
| Gwaith archwilio datganiadau ariannol<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mis Hydref i fis Tachwedd 2023 | Tachwedd 2023 |
| Archwilio Perfformiad:<br>• Asesiad sicrwydd a risg | Mis Medi 2023 i fis Chwefror 2024 | Nid oes adroddiad ffurfiol wedi'i gynllunio ar gyfer y gwaith hwn |

# Swyddogaethau archwilio statudol

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol.  Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad;
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y tabl ffioedd isod.  Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi a'r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddais y cynllun ffïoedd ar gyfer blwyddyn 2023-24 fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.  Mae cynnydd o 4.8% yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2023-24, ar gyfer pwysau chwyddiant.  Hefyd, mae cynnydd ychwanegol o 10.2% yn fy ffi archwilio ariannol ar gyfer effaith safon archwilio ddiwygiedig Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 ar fy null archwilio ariannol.  Nodir rhagor o fanylion am y safon archwilio ddiwygiedig a'r hyn y mae'n ei olygu i'r archwiliad yr ymgymeraf ag ef yn **Atodiad 1**. Ni wnaed unrhyw waith archwilio perfformiad yn ystod 2022-23, fodd bynnag, rydym yn bwriadu gwneud y gwaith hwn yn ystod 2023-24.

Rwyf yn amcangyfrif mai cyfanswm eich ffi archwilio fydd £25,114.

**Arddangosyn 5: ffi archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2023, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[2] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---:|---:|
| Archwilio cyfrifon[3] | 14,119 | 12,239 |
| Gwaith archwilio perfformiad[4] | 11,025 | 0 |
| Cyfanswm y ffi | 25,114 | 12,239 |

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg.  Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyd-Bwyllgor yn gyntaf.

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Mae'r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Ni nodir unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

[2] Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

[3] Yn daladwy o fis Tachwedd 2022 hyd fis Hydref 2023.

[4] Yn daladwy o fis Ebrill 2023 hyd fis Mawrth 2024.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Matthew Edwards | Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Archwilio | 029 20 320 566 | matthew.edwards@archwilio.cymru |
| Yvonne Thomas | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 029 22 677 830 | yvonne.thomas@archwilio.cymru |
| Carwyn Rees | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 029 20 829 375 | carwyn.rees@archwilio.cymru |
| Sioned Owen | Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol) | 029 20 829 338 | Sioned.owen@archwilio.cymru |
| Alan Hughes | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 029 20 829 349 | alan.hughes@archwilio.cymru |

Ceir rhai bygythiadau i annibyniaeth y mae angen i mi eu dwyn i'ch sylw mewn perthynas â'r Rheolwr Archwilio sy'n gydnabod i aelod o Grŵp Gweithredol y Cyd-bwyllgor. Nid yw gwaith y Rheolwr Archwilio'n ei gwneud yn ofynnol cael unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r aelod y tu allan i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, a bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn cael ei reoli. Ac eithrio hyn, gallaf gadarnhau bod holl aelodau eraill fy nhîm yn annibynnol ar y Cyd-bwyllgor.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt.  Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn.  Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd* ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd.  Am fwy o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2022.



**Ein Pobl**

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio**

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



**Sicrwydd annibynnol**

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

* QAD is the quality monitoring arm of ICAEW.

# Atodiad 1

## Newidiadau allweddol i Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 a’r effaith bosibl ar eich sefydliad

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| **Gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a mwy helaeth** | Efallai y bydd eich tîm cyllid ac eraill yn eich sefydliad yn cael nifer fwy o ymholiadau gan ein timau archwilio yn ystod y broses o gynllunio’r archwiliad. Gallai ceisiadau am wybodaeth gynnwys:<br>• gwybodaeth am fodel busnes eich sefydliad a sut mae’n integreiddio’r defnydd o dechnoleg gwybodaeth (TG);<br>• gwybodaeth am broses asesu risgiau eich sefydliad a sut mae eich sefydliad yn monitro’r system rheoli mewnol;<br>• gwybodaeth fanylach am sut y caiff trafodiadau eu dechrau, eu cofnodi, eu prosesu, a’u hadrodd. Gallai hyn gynnwys y gallu i gael gafael ar ddogfennaeth ategol fel llawlyfrau polisïau a gweithdrefnau;<br>• trafodaethau manylach â’ch sefydliad i gefnogi asesiad o risg cynhenid y tîm archwilio. |
| **Cael gwell dealltwriaeth o amgylchedd eich sefydliad, yn enwedig mewn cysylltiad â TG** | Efallai y bydd eich sefydliad yn cael mwy o ymholiadau i gynorthwyo’r tîm archwilio i ddeall yr amgylchedd TG. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:<br>• cymwysiadau TG sy’n berthnasol i adrodd ariannol;<br>• y seilwaith TG ategol (e.e. y rhwydwaith, cronfeydd data);<br>• prosesau TG (e.e. rheoli newidiadau i raglenni, gweithrediadau TG);<br>• y personél TG sy’n ymwneud â’r prosesau TG.<br>Efallai y bydd angen i dimau archwilio brofi’r rheolaethau TG cyffredinol a gallai hyn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth archwilio fanylach ar weithredu rheolaethau TG yn eich sefydliad.<br>Ar rai archwiliadau, gallai ein timau archwilio gynnwys arbenigwyr archwilio TG i’w cynorthwyo i wneud eu gwaith. Efallai y bydd angen i’n harchwilwyr TG ymgysylltu ag aelodau o’ch tîm TG nad ydynt wedi bod yn rhan o’r broses archwilio o’r blaen. |

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| **Gofynion uwch yn ymwneud ag arfer amheuaeth broffesiynol** | Gallai ein timau archwilio wneud ymholiadau ychwanegol os ydynt yn nodi gwybodaeth yr ymddengys ei bod yn gwrth-ddweud yr hyn y maent eisoes wedi ei ddysgu yn yr archwiliad. |
| **Mae asesiadau risg yn gallu ehangu'n gyflym, gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y corff a archwilir** | Bydd disgwyliadau'r tîm archwilio ynghylch ffurfioldeb polisïau, gweithdrefnau, prosesau, a systemau eich sefydliad yn dibynnu ar gymhlethdod eich sefydliad. |
| **Gallai timau archwilio wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth gynnal eu harchwiliad** | Gallai ein timau archwilio wneud defnydd o offer awtomataidd a thechnegau megis dadansoddi data wrth gynnal eu harchwiliad.  Gallai ein timau ofyn am wybodaeth wahanol neu wybodaeth mewn fformat gwahanol i'r archwiliadau blaenorol fel y gallant gyflawni eu gweithdrefnau archwilio. |

Drwy ein gwaith Arfer Da, rydym yn rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli.

Mae ein cylchlythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da a digwyddiadau, y gellir eu haddasu i'ch dewisiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith Arfer Da cliciwch yma.

Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr yma.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**27 o Hydref 2023**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad a Risgiau Chwarter 2 |
| **AWDUR:** | Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:

- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter2
- Cofrestr Risg y Portffolio – Medi 2023

4.4. <u>Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2</u>

4.4.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 2 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.4.2. Yn ystod y chwarter hwn, cafodd 5 prosiect ei gwahodd i ymuno gyda'r Cynllun Twf:

- Prosiect Anturiaethau Cyfrifol gan Zip World gyda dyraniad amodol o £6.2m
- Prosiect Stiwdio Kinmel gan Stage Fifty gyda dyraniad amodol o £6.8m
- Prosiect Hwb Hydrogen Caergybi gan Menter Môn gyda dyraniad amodol o £3.8m
- Prosiect Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy gan The Circular Economy Ltd gyda dyraniad amodol o £6.4m
- Prosiect Porth Wrecsam gan Cyngor Bwrdeistrefol Wrecsam gyda dyraniad amodol o £4.79m

Mae gwaith ar y gweill i anwytho prosiectau newydd, ac ymweliadau safle wedi ei trefnu i'r 5 prosiect. Bydd y prosiectau newydd yn cefnogi ein economi i ffynnu, creu swyddi newydd ac denu buddsoddiad i mewn i Ogledd Cymru.

4.4.3. Roedd y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau ar gyfer yr Her Ariannwr Hydrogen ar yr 11eg o Fedi. Mae'r broses werthuso ar y gweill, gyda penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig yn Rhagfyr 2023. Mae £11.2 miliwn o gyfalaf ar gael i alluogi'r galw am hydrogen yn y diwydiant.

4.4.4. Mae diweddariad Chwarter 2 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni diwygiedig y portffolio. Mae pum prosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Cysylltu yr Ychydig % Olaf – Mae gweithgaredd caffael ar y prosiect wedi'i atal nes bod Llywodraeth y DU yn cadarnhau dyddiad lansio ei hymyrraeth newydd, disgwylir iddo gael ei gadarnhau yn Ch3 23/24 i'w lansio yn 2024.Mae'n bosibl bydd ymyrraeth Llywodraeth y DU yn tynnu yr angen am y prosiect Cysylltu yr Ychydig % Olaf.
- Porth y Gorllewin, Wrecsam – mae angen adolygiad o'r prosiect i asesu'r gwaith o'i gyflawni gan ystyried y Panel Adolygu Ffyrdd a phedwar prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad priffyrdd.
- Cyn Ysbyty Gogledd Cymru - mae'r bwlch hyfywedd ar y prosiect wedi cynyddu, mae trafodaethau yn parhau gyda'r partner datblygu i drafod atebion posibl.
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon – caniatâd cynllunio eto i'w sicrhau. Fel rhan o'r cyngor cyn cynllunio argymhellwyd fod angen arolygon ystlumod ar dir tu allan i ffin Glynllifon. Mae gwaith arolygu ar y gweill yn unol â chais Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW.
- Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol – mae'r prosiect yn parhau yn goch oherwydd oedi cyson. Mae'r prosiect nawr yn symud mewn cyfeiriad cadarnhaol a disgwylir achos fusnes yn gynnar yn 2024.

4.5. <u>Cofrestr Risg y Portffolio – Medi 2023</u>

4.5.1. Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio a chamau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

4.5.3. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf, mae'r proffil risg yn parhau yn uchel gyda nifer o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys capasiti, oedi, fforddiadwyedd, buddsoddiad sector gyhoeddus a preifat, caniatáu ac amcanion gwariant.

Mae un sgôr risg gweddilliol wedi lleihau. Mae'r risg ar wireddu buddion wedi cynyddu yn sgil nifer o brosiectau yn wynebu oedi fydd yn effeithio ar amseru gwireddu buddion. Mae'r risg ar gapasiti wedi lleihau yn dilyn gwell sefyllfa refeniw.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 |
| **Atodiad 2** | Cofrestr Risg y Portffolio – Medi 2023 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Un o brif dasgau'r Bwrdd Uchelgais yw monitro cynnydd a risgiau. Mae angen i'r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hun ei bod yn adlewyrchu'r statws risg yn gywir a bod camau lliniaru yn derbyn sylw"

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod chwarter 2. Ni fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd."

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

2023-24 Adroddiad Perfformiad

Chwarter 2

(Gorffennaf - Medi 2023)



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# Cynnwys yr Adroddiad


1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio4

2. Perfformiad y Portffolio5

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol**Error! Bookmark not defined.**

4. Perfformiad Rhaglen Ynni Carbon Isel8

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo11

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth15

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel17

8. Olrhain Cynnydd y Prosiectau19

9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf 20

10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Mawrth 2023) **Error! Bookmark not defined.**

11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf 22

12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf23

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf**Error! Bookmark not defined.**

# 1. Portfolio Director Summary

Yn ystod y chwarter diwethaf, penderfynodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i wahodd pum prosiect newydd i ymuno â'r Cynllun Twf yn dilyn galwad am brosiectau newydd:

- Prosiect Anturiaethau Cyfrifol gan Zip World, gyda dyraniad amodol o £6.2m
- Prosiect Stiwdio Kinmel gan Stage Fifty, gyda dyraniad amodol o £6.8m
- Prosiect Hwb Hydrogen Caergybi gan Menter Môn, gyda dyraniad amodol o
- £3.8m
- Prosiect Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy gan The Circular Economy Ltd, gyda dyraniad amodol o £6.4m
- Prosiect Porth Wrecsam gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gyda dyraniad amodol o £4.79m

Mae gwaith yn parhau ar *'onboarding'* y prosiectau newydd, mae ymweliadau safle wedi'u cynnal â'r 5 prosiect. Bydd y prosiectau newydd yn cefnogi ein heconomi i ffynnu, creu swyddi newydd a dod â buddsoddiad i Ogledd Cymru.

Y dyddiad cau am geisiadau ar gyfer yr Her Ariannu Hydrogen oedd 11 Medi. Mae'r broses werthuso a dethol yn mynd rhagddi, a rhagwelir penderfyniad terfynol ym mis Rhagfyr. Mae hyd at £11.2miliwn o gyfalaf ar gael i alluogi galw'r diwydiant am hydrogen. Dyma gam gwych ymlaen i'r prosiect ac edrychwn ymlaen at ddatgelu rhagor o fanylion yn y man.

Bu i ni lansio ymgyrch recriwtio ym mis Medi i lenwi nifer o swyddi gwag gyda rolau yn cynnwys rheoli prosiect, cyfathrebu a chaffael. Hysbysebir rolau pellach ym mis Hydref - gweler ein gwefan Uchelgais Gogledd Cymru | Gyrfaoedd os oes gennych ddiddordeb gweithio i Uchelgais Gogledd Cymru.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn a'n Pennaeth Gweithrediadau, Hedd Vaughan-Evans, i roi cyflwyniad i Bwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd, gan ganolbwyntio ar y prif feysydd cynnydd a wnaed ers y sesiwn ddiwethaf ym mis Mawrth 2021 a'r heriau yr ydym wedi'u wynebu. Mae hyn yn rhan o'r fframwaith sicrwydd sydd gennym yn ei lle gyda'r ddwy lywodraeth a'n partneriaid lleol, ac rydym yn croesawu'r cyfle i ddarparu asesiad gonest o'n cynnydd hyd yma.

Mae'n amser cyffrous i Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda'n prosiectau newydd a nifer o'n prosiectau presennol yn nesáu at bwynt lle byddant yn cyflawni.



Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

Alwen Williams

# 2. Portfolio Performance

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | | Bydd diweddariad Achos Busnes Portffolio 2023 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref i'w gymeradwyo cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o ddyfarniad blynyddol y broses ariannu. |
| Piblinell Cyflawni | | Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2023. Bydd y prosiectau bellach yn adrodd yn erbyn yr amserlen ddiwygiedig hon |
| Llywodraethu | | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| Sicrwydd | | Mae trydydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau ym mis Medi 2022, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr' ar gyfer y portffolio. Mae'r adolygiad nesaf wedi cael ei drefnu a bydd yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2023. |
| Adnoddau a Chapasiti | | Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i lleihau gan 2 FTE dros y chwarter a fu, ac mae ymgyrch recriwtio yn mynd rhagddi i benodi i swyddi gwag a chael capasiti ychwanegol. Mae'r contractau tymor penodol yn y tîm wedi'u hymestyn i fis Mawrth 2025, gan leihau'r risg y bydd staff yn gadael yn y tymor byr. |
| Cyllid | | Roedd cyfanswm o £2.28m o arian y Cynllun Twf wedi cael ei wario hyd at diwedd 2022/23, gydag £1.8m o hwnnw ar y Ganolfan Prosesu Signal Digidol. Hyd yma yn 2023/24, mae £368k o refeniw'r Cynllun Twf wedi cael ei wario. |
| Buddsoddiad | | Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | | Mae risgiau lefel portffolio o ran caniatâd ac mae'r oedi yn parhau i fod yn uchel yn sgil materion lefel prosiect. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn risg uchel oherwydd chwyddiant parhaus, materion yn y gadwyn gyflenwi a chynnydd mewn costau adeiladu. Mae'r risg ynghylch capasiti wedi lleihau'n raddol yn sgil ymestyn contractau tymor sefydlog sy'n ymwneud â chyflawni'r Cynllun Twf ond mae'n parhau i fod yn uchel |
| Monitro a Gwerthuso Buddion | | Mae'r fframwaith gwireddu buddion, monitro a gwerthuso a'r diffiniadau dangosyddion wedi'u cwblhau'n derfynol, ac maent yn nwylo Llywodraeth Cymru i'w hadolygu. Mae canllaw defnyddwyr system yn cael ei ddatblygu ac mae'r ail gam o hyfforddiant defnyddwyr ar gyfer y system adrodd yn cael ei chynllunio. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | | Y prif ffocws oedd y datganiad ar y prosiectau newydd sy'n ymuno â'r Cynllun Twf. Roedd cyfathrebu yn parhau i hyrwyddo'r Her Ariannwr Hydrogen gyda hyd at £11.2 miliwn o gyfalaf i gyflwyno hwb hydrogen yn y rhanbarth. Parhau i dyfu wnaeth ein hymgysylltiad a'n hestyniad i dyfu ar y cyfryngau cymdeithasol, ac fe lwyddom i gael dros 19k o ymweliadau ar y wefan. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 1. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) wedi derbyn yr ail wedd o offer wedi'i ariannu gan y Cynllun Twf ac mae wedi recriwtio i 14 swydd ar ôl y buddsoddiad. Mae'r achos cyfiawnhau busnes terfynol i awdurdodi cam terfynol yr arian i fod i gael ei ddatblygu yn y chwarter nesaf, gyda'r Ganolfan yn canolbwyntio ar gyflawni amcanion gwario'r prosiect.<br>• Ar ôl trafodaethau diweddar â Llywodraeth y DU, mae'r gwaith paratoi ar gyfer y Prosiect Ychydig % Olaf wedi'i atal wrth i fanylion ymyrraeth genedlaethol newydd arfaethedig gael eu rhannu gydag Uchelgais Gogledd Cymru. Mae gan y bwriad y posibilrwydd o gyflawni neu wella amcanion gwario'r prosiect rhanbarthol sydd wedi'i gynllunio ac fe wneir penderfyniad ar ail-sgopio'r prosiect Ychydig % Olaf unwaith y bydd Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yr ymyrraeth newydd yn mynd yn ei flaen.<br>• Mae'r cynnydd ar yr Achos Busnes Strategol ac Amlinellol ar gyfer y Campysau Cysylltiedig a'r prosiectau Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig yn parhau ac mae'r adolygiad annibynnol Porth 2 gofynnol ar gyfer y prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig bellach wedi'i amserlennu ar gyfer mis Tachwedd, cyn i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ystyried yr Achos Busnes Amlinellol. |



Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Rebeccah Lowry
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor | Cyflwyno | • Yr eitem derfynol o'r caffael am yr ail flwyddyn wedi'i chyflawni.<br>• Mae nifer y swyddi uniongyrchol a grëir wedi cyrraedd 14 (5 o staff parhaol, 9 tymor penodol hyd fis Rhagfyr 2024). | • Cyflwyno'r achos cyfiawnhad busnes terfynol ar gyfer trydydd gwedd y cyllid i brynu offer. | Gwyrdd | • Mae'r prosiect yn cyflawni o ran cyrraedd yr amcanion gwario gyda chamau wedi'u cymryd ers cymeradwyo'r achos cyfiawnhau busnes diwethaf i gyflawni'r targed ar greu swyddi anuniongyrchol.<br>• Mae'r ail rownd caffael bellach wedi'i chwblhau. |
| Cysylltu'r Ychydig % Olaf Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Dogfennau caffael a chontractau wedi'u cwblhau.<br>• Cais SPF yn mynd rhagddo. Mae ymgysylltu â band-llydan cymunedol yn ffrwd gwaith yn y cais. | • Llywodraeth y DU i gadarnhau'r dyddiad lansio ar gyfer ei ymyrraeth newydd.<br>• Penderfyniad ar ail-sgopio'r prosiect o fewn y rhaglen | Coch | • Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig ymyrraeth newydd sy'n debygol o gwrdd â neu wella amcanion gwario prosiect yr Ychydig % Olaf.<br>• Mae'r gweithgarwch caffael wedi cael ei atal hyd nes i Lywodraeth y DU gadarnhau dyddiad lansio ar gyfer ei brosiect, a disgwylir i hyn gael ei gadarnhau yn Ch3 23/24 ac iddo gael ei lansio yn 2024. |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Amlinellol ar gyfer 4G+ a ffrydiau gwaith Ffibr wedi cael eu cyflwyno am adolygiad PMO.<br>• Mae gweithgarwch ymgysylltu â'r farchnad wedi dechrau.<br>• Mae Adolygiad Gateway wedi cael ei amserlennu (Tachwedd 2023)<br>• Mae'r cais SPF yn mynd rhagddo, bydd y cyllid hwn yn cefnogi gwaith awdurdodau lleol ar ddatblygu cytundebau mynediad ac adolygu *'mobile coverage'* | • Cymeradwyaeth PMO o Achosion Busnes Amlinellol<br>• Adolygiad Porth 2 Tachwedd<br>• Cymeradwyaeth y bwrdd o Achosion Busnes Amlinellol terfynol | Gwyrdd | • Mae ymgysylltu â'r farchnad yn parhau i ddilysu cynigion.<br>• Risg chwyddiant o ran fforddiadwyedd yn cael ei fonitro.<br>• Ni ystyrir bod cynnig diweddar Llywodraeth y DU am ymyrraeth genedlaethol newydd yn peri risg uniongyrchol yn y cam hwn.<br>• Arian SPF i fwrw ymlaen â gwaith ar gytundebau mynediad rhanbarthol (ymyrraeth refeniw) ynghyd â chyllid i gefnogi cynnal arolwg o'r *'mobile coverage'* ar draws y rhanbarth. |
| Campysau Cysylltiedig Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y ffrwd gwaith Di-wifr Uwch wedi'i gyflwyno am gymeradwyaeth gan y PMO.<br>• Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y prosiect LPWAN bellach yn bwrw ymlaen i gaffael.<br>• Cynigion am drefniadau sicrwydd prosiect wedi'u cymeradwyo gan Hwb Sicrwydd LlC<br>• Cais SPF yn mynd rhagddo, mae hyn yn cynnwys arian am asesiadau cysylltedd ledled y rhanbarth | • Caffael LPWAN<br>• Adolygiad PMO o'r Achos Busnes Amlinellol<br>• Adolygiad Porth 2 i'w amserlennu ar gyfer y ffrwd gwaith Di-wifr Uwch | Gwyrdd | • Ymgysylltiad â'r farchnad yn dilysu'r cynnig presennol ond bydd yn parhau i ddatblygu hwn yn Achos Busnes Amlinellol.<br>• Risg chwyddiant o ran fforddiadwyedd yn cael ei fonitro.<br>• Mae cynnig am sicrwydd gyda'r ddau ffrwd gwaith wedi cael ei gymeradwyo gan Hwb Sicrwydd LlC.<br>• Arian SPF i wneud asesiadau cysylltedd ar gyfer busnesau SME i wella'r trefniadau cyflawni ar gyfer y prosiect. |

| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |
|---|---|---|---|---|---|

# 4. Perfformiad Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Cydnerth (Morlais): Bu datblygwyr tyrbinau Morlais yn llwyddiannus yn y rownd dyrannu 'Contractau ar gyfer Gwahaniaeth' diweddar gan sicrhau dyraniad o dros 20MW a chryfhau'r achos ar gyfer prosiect Cydnerth. Ar hyn o bryd, mae'r telerau buddsoddi wrthi'n cael eu sefydlu ac mae'r Achos Busnes Amlinellol ar y trywydd iawn i argymell cymeradwyo ym mis Rhagfyr 2023.<br>• Egni: Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddiweddaru ac ar y trywydd iawn i gael ei gymeradwyo tua diwedd Ch3 23/24.<br>• Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth: Bu i'r Her Ariannwr Hydrogen gau yn gynnar ym mis Medi ac mae'r ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Prosiect yn mynd yn unol â'r targed i benodi ariannwr erbyn diwedd 2023.<br>• Ynni Lleol Blaengar: yn dilyn proses gaffael aflwyddiannus am ymgynghorydd cronfa dros yr haf, mae'r prosiect yn nesáu at ail-lansio tendr ar ôl gwneud newidiadau allweddol iddo ar ôl cael adborth gan y farchnad.<br>• Trawsfynydd: Mae Cwmni Egino wedi drafftio cais am newid ar gyfer newidiadau prosiect allweddol sy'n adlewyrchu eu Cynnig Busnes a'u cerrig milltir allweddol i FID.<br>• **Prosiectau newydd:** Bydd 2 brosiect newydd o'r broses adfer y prosiect wedi ymuno â'r rhaglen Ynni Carbon Isel:<br>  ○ **Deeside Waste to Fuel** Mae'r ariannwr wrthi'n drafftio'r Achos Busnes Amlinellol a bydd yn cael ei gyflwyno am adolygiad i'r PMO yn fuan iawn<br>  ○ **Hwb Hydrogen Caergybi:** Mae'r ariannwr wrthi'n drafftio'r Achos Busnes Amlinellol a bydd yn cael ei gyflwyno am adolygiad i'r PMO yn ystod yr hydref |



Cllr Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elgan Roberts
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| Cydnerth (Morlais)<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Datblygwyr wedi llwyddo i gaffael mwy na 20MW o 'Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth' ar gyfer safle Morlais.<br>• Wedi cyflawni graddfa ambr yn dilyn yr Adolygiad Porth 2.<br>• Mae prosiect Morlais yn nesáu at gwblhau ac mae wedi cael ei gyflwyno yn llwyddiannus. | • Argymhellion o'r Adolygiad Porth 2 i gael eu gweithredu'n briodol.<br>• Achos Busnes Amlinellol i gael ei ddiweddaru a'i gwblhau'n derfynol ar ôl yr adolygiad PMO.<br>• Telerau ac Amodau WEFO i gael eu negodi i alluogi buddsoddiad pellach.<br>• Paratoi Achos Busnes Amlinellol i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2023. | | • Datrysiadau i'r materion sydd wedi'u nodi angen eu cyflwyno cyn y gellir cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i'w gymeradwyo. |
| Hwb Hydrogen<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae tri bid wedi'i dderbyn mewn ymateb i'r Her Ariannwr Hydrogen. | • Mae'r broses ddethol yn parhau i fod ar amser ac mae wedi'i hamserlennu i gael ei chyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Rhagfyr. Mae hyn yn parhau fel y dyddiad targed am benderfyniad ynghylch penodiad yr ariannwr/arianwyr. | | • Bidiau wedi'u derbyn, proses yn rhedeg ar amser |
| Egni<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae gwaith yn bwrw ymlaen ar ddyluniad yr adeilad newydd.<br>• Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn bur gyflawn ond mae'n cael ei ddiweddaru wrth i waith dylunio barhau.<br>• Mae trafodaethau ariannu yn parhau gyda darpar arianwyr sydd ddim yn y Cynllun Twf i ddeall unrhyw ofynion ac amserlenni. | • Yn parhau i weithio drwy'r camau dylunio a *'sign-off'* porth i fod i ddigwydd unrhyw funud.<br>• Yn parhau i weithio drwy'r arolygon cychwynnol yn enwedig o ran cyfleustodau.<br>• Cwblhau papur llywodraethu mewnol yn derfynol i sicrhau cymeradwyaeth fewnol i'r un amserlen â'r cymeradwyo allanol.<br>• Paratoi Achos Busnes Amlinellol i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2023. | | • Ansicrwydd am ffurf terfynol y cyllid ac felly sgôp a buddion y prosiect. |
| Ynni Lleol Blaengar<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Wedi ymgysylltu ag Ymgynghorwyr Cronfa â diddordeb i ddeall pam na wnaethant gyflwyno tendrau.<br>• Ystyried newidiadau posib i strwythur y ffioedd a sgôp y gwaith i wneud y cynnig tendr yn fwy deniadol i'r farchnad. | • Cytuno ar y newidiadau mwyaf priodol i'r cynnig tendr a diweddaru'r dogfennau tendr.<br>• Ail-lansio'r tendr.<br>• Cwblhau'r strategaeth buddsoddi a'r Achos Busnes Llawn drafft, yn derfynol. | | • Oedi i gwblhau'r Achos Busnes Llawn yn derfynol a lansio'r Gronfa yn sgil methiant i benodi Ymgynghorydd Cronfa ar yr ymgais gyntaf. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trawsfynydd<br>Cwmni Egino | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cais i newid y drafft i adlewyrchu'r newidiadau i'r prosiect arfaethedig ers i Gwmni Egino ddatblygu'r cynnig cychwynnol sydd wedi'i gymeradwyo o fewn yr Achos Busnes Rhaglen gael ei gyflwyno i'r PMO am adolygiad. | • Bydd cais am newid yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen am gymeradwyaeth.<br>• Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer cyfran 1 i'w adolygu. | | • Ansicrwydd ynghylch amserlen cyflwyno'r rhaglen hyd nes i'r broses dethol safle gael ei gwblhau gan Lywodraeth y DG. |
| Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy<br>Datblygiadau'r Economi Cylchol | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi.<br>• Camau wedi'u cytuno ar gyfer yr amserlen uchelgeisiol i fod y prosiect ynni cyntaf i ddechrau gwaith adeiladu ar y safle ymhen pum mis. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad.<br>• Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei baratoi gan PwC ar gyflymdra digynsail ac mae adolygiad Porth yn cael ei gynllunio er mwyn cadw'r prosiect ar y llwybr iawn er mwyn cychwyn ar y safle ym mis Chwefror 2024.<br>• Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol yn derfynol i'w gymeradwyo ym mis Tachwedd 2023. | | • Cynnig prosiect aeddfed yn ei le, ymgynghorwyr arbenigol ynghlwm, buddsoddwyr credadwy yn barod i symud ymlaen. |
| Hwb Hydrogen Caergybi<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi.<br>• Camau wedi'u cytuno ar gyfer yr amserlen uchelgeisiol i gyflawni'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Ionawr/Chwefror 2024. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad.<br>• Disgwylir y penderfyniad terfynol gan Lywodraeth y DG ynghylch y buddsoddiad £4.8 miliwn, yn amodol ar y broses diwydrwydd dyladwy a gwerth am arian ac asesiadau rheoli cymorthdaliadau.<br>• Ar yr un pryd, bydd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer arian y Cynllun Twf yn cael ei ddatblygu ar fyrder, yn barod am adolygiad porth ym mis Tachwedd 2023.<br>• Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol yn derfynol i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2023. | | • Angen penderfyniadau buddsoddi gan fuddsoddwyr allanol (EDF a Llywodraeth y DG) sy'n ddibynnol ar eraill |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Warren Hall, Brychdyn - Mae Llywodraeth Cymru yn penodi ymgynghorydd i adrodd ar effaith yr achos diogelwch maes awyr Penarlâg ar safle'r prosiect ac rydym yn disgwyl yr asesiadau cychwynnol yn gynnar ym mis Hydref. Ar ôl asesiad cychwynnol o'r profion ar gyfer buddsoddiad priffyrdd yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru am benodi ymgynghorydd i gynnal asesiad ffurfiol i gadarnhau'r farn gychwynnol honno.<br>• Porth y Gorllewin, Wrecsam - Mae'r Cyngor am gyflwyno tendr i benodi ymgynghorydd i gynnal Astudiaeth Mynediad a Symudiad i ail-ymweld â thystiolaeth patrymau a chyfeintiau traffig er mwyn asesu capasiti'r safleoedd prosiect i'w datblygu yn unol ag argymhellion Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych – mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros a'u hymgynghorwyr Avison Young bellach yn y broses o drafod y materion hyfywdra sy'n cael eu hachosi yn sgil costau adeiladu cynyddol yn y diwydiant adeiladu. Mae materion eraill gyda'r prosiect yn parhau i wneud cynnydd, yn benodol, mae gwell cywirdeb gyda'r amcangyfrifon cost, mae drafft cyntaf y prif gynllun wedi'i gwblhau ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar gwrdd â'r amodau a'r trwyddedau cynllunio sydd eu hangen i gwblhau'r caniatâd cynllunio yn derfynol er mwyn i gam cyntaf y gwaith fynd rhagddo.<br>• Porth Caergybi - cymeradwywyd Gorchymyn Diwygio Harbwr prosiect ymestyn Porthladd Caergybi ar ddechrau mis Awst. Mae'r cynnydd gydag achos busnes y prosiect wedi cyflymu gyda'r Achos Economaidd yn cael ei ddatblygu ymhellach, ac eglurder ar y llwybr caffael a'r ddogfen Cefnogaeth Cymhorthdal drafft yn cael ei pharatoi.<br>• Parc Bryn Cegin, Bangor - Mae briff y tendr ar gyfer penodi'r tîm proffesiynol o ymgynghorwyr wedi cael ei ddychwelyd ac mae'r ymatebion wrthi'n cael eu hadolygu<br>• Prosiectau newydd: Mae dau brosiect newydd o'r broses prosiectau newydd wedi ymuno â'r Rhaglen Tir ac Eiddo:<br>  o Kinmel Studios - Mae cyfarfod *'on-boarding'* cychwynnol wedi'i gynnal â Studio 50 a'u tîm ymgynghorol.<br>  o Porth Wrecsam - Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle gyda thîm y Prosiect ac wedi hynny cynhaliwyd cyfarfod ar lywodraethu'r prosiect a'i brosesau er mwyn adolygu'r achos amlinellol strategol. |



Cllr Jason McLellan
**Aelod Arweiniol**



Andrew Farrow
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



David Mathews
**Rheolwr Rhaglen**

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| Porth y Gorllewin, Wrecsam<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae'r Cyngor am benodi ymgynghorydd i gynnal astudiaeth mynediad a symudiad er mwyn cael tystiolaeth gyfredol o faint a llif y traffig. Bydd hwn yn darparu gwybodaeth gyfredol ar gyfer asesiad traffig sydd i'w gynnal i gadarnhau p'un a oes modd i safle'r prosiect gyflawni yn sgil pedwar prawf Llywodraeth Cymru.<br>• Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod gan eu Safleoedd Trin Dŵr Gwastraff yng Ngresffordd a Five Ford beth capasiti i gymryd llif ychwanegol a thrin allyriadau i afonydd am ffosffad, a allai olygu bod modd bwrw ymlaen â'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo eisoes. | • Cwblhau'r broses gaffael i benodi'r ymgynghorydd i gynnal yr Astudiaeth Mynediad a Symudiad. | Coch | • Mae sgôr risg y prosiect wedi newid i goch, tra mae'r adolygiad o allu'r prosiectau i gwrdd â phrofion y Llywodraeth am fuddsoddiad priffyrdd yn cael ei gynnal. |
| Warren Hall, Brychdyn Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cytunodd Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint ac Uchelgais Gogledd Cymru bod y prosiect yn medru bwrw ymlaen yn unol â phedwar prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith priffyrdd newydd. Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad ffurfiol.<br>• Cyfarfu Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint ac Uchelgais Gogledd Cymru gyda'r ymgynghorydd i dderbyn adroddiad cychwynnol ar y safleoedd yn unol ag achos diogelwch y maes awyr. | • Ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru i ddarparu eu hadroddiad drafft ar yr effaith a mesurau lliniaru'r achos diogelwch maes awyr ar safle'r prosiect. | Ambr | • Sgôr risg y prosiect yn parhau yn ambr gan bod cwrdd yr achos diogelwch maes awyr yn dal angen cael ei asesu'n llawn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych<br>Jones Bros (Rhuthun) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cynnydd sylweddol ar y dogfennau gan bartner y prosiect. Prif gynllun y safle wedi'i gwblhau ac asesiadau cost manwl wedi'u cwblhau. Gwerthusiad o'r datblygiad newydd wedi'i gwblhau.<br>• Partner y prosiect i gyflwyno dogfennau i'r Awdurdod Cynllunio ar y cytundeb A106, cydymffurfiaeth ag amodau cynllunio a thrwyddedau Cynefinoedd. | • Cwblhau diwygio'r achos busnes amlinellol sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Graddol a'r llwybr caffael a chyflwyno hwn er mwyn i'r broses gymeradwyo fynd rhagddi.<br>• Drafftio cais am gefnogaeth cymhorthdal gyda chyngor gan ymgynghorwyr allanol a chyflwyno hwn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.<br>• Mae'r caniatadau sydd eu hangen yn cael eu rhoi gan yr awdurdod cynllunio. | | • Sgôr risg y prosiect wedi newid yn goch yn sgil cynnydd yn y bwlch hyfywdra. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r partner datblygu ynghylch datrysiadau posib. |
| Parc Bryn Cegin, Bangor<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Llywodraeth Cymru i benodi tîm ymgynghoriaeth i ddylunio a datblygu'r prosiect. | • Tîm ymgynghorol Llywodraeth Cymru i ddechrau datblygu'r prosiect. | | • Peth oedi yn sgil y broses gaffael er mwyn penodi'r tîm ymgynghorol. . Y prosiect yn cadw ei sgôr risg gwyrdd. |
| Porth Caergybi<br>Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru'r Gorchymyn Diwygio Harbwr Caergybi ym mis Awst.<br>• Cynnydd wedi'i wneud ar yr Achos economaidd, caffael, costau diwygiedig, yn y chwarter hon.<br>• Cais cyngor cymorth cymhorthdal yn cael ei ddatblygu cyn ei gyflwyno i Pinsent Masons. | • Cwblhau Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti'r porthladdoedd.<br>• Cyflwyno'r cais am gefnogaeth cymhorthdal i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.<br>• Stena i fwrw ymlaen â'r caffael cam cyntaf cyn cyflwyno'r ail gam Gwahoddiad i Dendro. | | • Sgôr risg yn cael ei gadw ar ambr gan bod trafodaethau gyda defnyddwyr ardaloedd newydd y porthladd yn dal i ddigwydd. |
| Stiwdio Kinmel<br>Stage Fifty | Cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol yn derfynol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad. | | • Graddfa risg yn wyrdd o ystyried y craffu a'r asesiadau a wnaed ar gyflawnadwyedd prosiect y cais. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Porth Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol yn derfynol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi.<br>• Dilynwyd hyn gan gyfarfod i drafod materion pellach, gan gynnwys llywodraethu cynnydd cyfredol y prosiect, camau gweithredu.<br>• Dogfennau wedi'u rhannu â phartner y prosiect. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad.<br>• Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd a rhaglen waith | | • Graddfa risg yn wyrdd o ystyried y craffu a'r asesiadau a wnaed ar gyflawnadwyedd prosiect y cais. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | Mae prosiectau yn bwrw ymlaen yn unol â'r disgwyl yn y chwarter diwethaf a rheoli risgiau yn ymwneud â newidiadau'r tîm ar gyfer prosiect Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon a phroses *'on-boarding'* y prosiect newydd, Responsible Adventure gan ZipWorld. Mae materion cynllunio yn parhau i fod yn risg arwyddocaol ar gyfer y tri phrosiect, gyda'r risgiau yn cael eu rheoli fel y disgrifir isod. Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi bod yn trafod y cwestiwn ynghylch pam na ddaeth unrhyw brosiectau yn ymwneud ag amaethyddiaeth ymlaen drwy'r alwad ddiweddar am brosiectau newydd ac mae'n cynnig ffurfio grŵp Tasg a Gorffen i ymchwilio i hyn ymhellach â rhan-ddeiliaid. |



Cllr Charlie McCoubrey
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Gwaith arolygu pellach yn parhau ar gais Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW<br>• Rheolwr Prosiect newydd wedi'i recriwtio ac Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO) Dros Dro ar gyfer y prosiect, sef Martin Jardine, yn cymryd lle Dr. Paul Bevan<br>• Gweithio gyda'r PMO i gadarnhau amserlen ddiwygiedig ar gyfer drafftio ac adolygu'r Achos Busnes Llawn gan weithio tuag at gymeradwyo yn gynnar yn 2024. | • Parhau â gwaith arolwg pellach<br>• Cyfarfod ar y safle gydag Uchelgais Gogledd Cymru i drafod risgiau cynllunio a'r amserlen tan fydd yr Achos Busnes Llawn yn cael ei gyflwyno<br>• Datblygu'r Achos Busnes Llawn ymhellach | Coch | • Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi gyda'r prosiect a chan nad yw caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau eto |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Amlinellol (OBC) yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen a'i gymeradwyo<br>• Achos Busnes Amlinellol (OBC) wedi'i gyflwyno i'r Grŵp Cyflawni Busnes ac wedi'i gefnogi<br>• Arian Ffyniant Cyffredin wedi'i dderbyn i ddatblygu prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth, gan gefnogi datblygiad pellach y prosiect hwn | • Achos Busnes Amlinellol (OBC) i'w gyflwyno i Fwrdd y Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Hydref 2023<br>• Gweithio gyda'r PMO er mwyn datblygu cytundeb ariannu yn benodol i'r prosiect.<br>• Paratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cynnig Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar gyfer yr elfen Canolbwynt, a chyflwyno cais cynllunio | Ambr | • Mae gweithio drwy fanylion y caffael pwrpasol wedi arwain at oedi o 1-2 fis gan newid y risg amser i Ambr. |
| Anturiaethau Cyfrifol<br>ZipWorld | Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad. | Gwyrdd | • Gweithio ar gadarnhau sgôp ac amserlen fel rhan o'r diweddariad SOC. |

| Gwyrdd | Ambr | Coch |
|---|---|---|
| Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel



| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi canolbwyntio ar gefnogi prosiectau i gyflawni yn unol ag amserlenni tynn, gan reoli'r risgiau a ddisgrifir isod. Mae hefyd wedi cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil Rhaglen Partneriaethau Lleol ar gyfer Arloesi Cymru Wledig dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, ar y cyd â Phrifysgolion Bangor a Wrecsam. Mae'r prosiect ymchwil hwn yn edrych ar ystyr arloesi mewn cyd-destun gwledig, fydd yn cefnogi ymgysylltiad prosiectau'r Cynllun Twf gyda mentrau gwledig bach a chanolig ar draws Gogledd Cymru. |



Cllr Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol



Paul Bevan
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Innovation in High Value Manufacturing Programme Performance


| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Prifysgol Wrecsam Glyndŵr | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Mae'r dyluniadau ar gyfer adeiladu Plas Coch wedi'u cwblhau'n derfynol a'u cymeradwyo, gan gynnwys gosodiadau manwl o'r ystafelloedd.<br>• Sesiwn ymgysylltu â busnesau ym mis Mehefin.<br>• Mae tendrau ar gyfer y gwaith OpTIC a phrynu offer wedi'u cymeradwyo a'u rhyddhau ar GwerthwchiGymru<br>• Penodwyd Apollo Engineering fel ymgynghorwyr Hydrogen ar y prosiect. | • Cwblhau'r drafftiau o'r achosion economaidd, masnachol, ariannol a rheoli ar gyfer yr achos busnes llawn.<br>• Prosiect ar y trywydd iawn er mwyn i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ystyried yr Achos Busnes Llawn ym mis Tachwedd 2023 a chychwyn ar y safle ym mis Chwefror 2024 | | • Mae'r prif faterion o ran cost ac amser wedi'u datrys, ond mae'r amseru yn parhau i fod yn dynn er mwyn aros yn unol â'r amserlen i gymeradwyo ym mis Tachwedd. |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Cyfiawnhad Busnes | • Cynhaliwyd Adolygiad Sicrwydd Prosiect ar 4-6 Medi gan sicrhau graddfa Ambr, gan nodi bod gwaith i'w wneud ond bod modd cyflawni'r prosiect.<br>• Mae gwaith yn parhau ar ddyluniad safle Henfaes - mae arolygon rhagarweiniol wedi'u hamserlennu, sgyrsiau yn cael eu cynnal a gweithdy cynllunio a rhan-ddeiliaid wedi'u cynnal.<br>• Mae gwaith ar yr Achos Cyfiawnhad Busnes wedi parhau yn seiliedig ar yr adolygiad PMO ym mis Gorffennaf. | • Cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer safle Henfaes<br>• Cynnwys adborth o Adolygiad y Swyddfa Rheoli Portffolio cyn cwblhau'r Achos Cyfiawnhau busnes yn derfynol am adolygiad terfynol. | | • Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi gyda'r prosiect |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 8. Olrhain Cynnydd y Prosiectau

| Prosiect | Cam Caniatâd | | | | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cynlluni o llawn / Caniatâd | Amodau wedi'u gweithredu | Pennu cyd-destun y Prosiect | Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Approval of the Full Business Case | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕓 | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Campysau Cysylltiedig | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Yr Ychydig % Olaf | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕓 | | | |
| Cydnerth (Morlais) | ✓ | ✓ | ✓ | 🕓 | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Trawsfynydd | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | 🕓 | | | | | | |
| Egni | 🕓 | | | | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕓 | | | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen) | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Gwastraff i danwydd Glannau Dyfrdwy | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Hwb Hydrogen Caergybi | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Porth Caergybi, Ynys Môn | ✓ | ✓ | ✓ | 🕓 | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | 🕓 | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | Mabwysiadu'r CDLl ar ôl | | | | ✓ | 🕓 | | | | | | |
| Neuadd Warren, Brychdyn | 🕓 | | | | ✓ | 🕓 | | | | | | |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | 🕓 | | | | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | | |
| Stiwdio Kinmel | 🕓 | | | | ✓ | 🕓 | | | | | | |
| Porth Wrecsam | 🕓 | | | | ✓ | 🕓 | | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | 🕓 | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕓 | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 🕓 | | | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕓 | | | | |
| Anturiaethau Cyfrifol | 🕓 | | | | ✓ | 🕓 | | | | | | |

# 9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf




| | | OBC | Dechrau ar y Safle | Cwblhau Prosiect |
|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Rhag-21 | Ion-22 | Rhag-25 |
| | Coridorau Cysylltiedig | Ion-24 | Hyd-24 | Maw-26 |
| | Campysau Cysylltiedig | Mai-24 | Chwef-25 | Rhag-26 |
| | Yr Ychydig % Olaf | Awst-22 | Chwef-25 | Rhag-26 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Rhag-23 | Hyd-24 | Rhag-26 |
| | Egni | Rhag-23 | Mai-25 | Awst-26 |
| | Trawsfynydd | Chwef-25 | Meh-25 | Ebr-30 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Medi-24 | Mai-25 | Mai-30 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Maw-23 | Ebr-24 | Maw-29 |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy | Tach-23 | Ebr-24 | Medi-25 |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | Rhag-23 | Meh-24 | Ion-26 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi, Ynys Môn | Tach-23 | Maw-24 | Ion-26 |
| | Neuadd Warren, Brychdyn | Rhag-24 | Medi-25 | Rhag-26 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych | Rhag-23 | Maw-24 | Medi-25 |
| | Parc Bryn Cegin, Gwynedd | Mai-24 | Hyd-24 | Medi-25 |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Meh-25 | Ion-26 | Maw-27 |
| | Stiwdio Kinmel | Gorff-24 | Ebr-25 | Maw-27 |
| | Porth Wrecsam | Gorff-24 | Mai-25 | Medi-26 |
| Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Ion-24 | Meh-24 | Meh-25 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Ebr-22 | Chwef-24 | Ebr-25 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Awst-22 | Hyd-24 | Rhag-24 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Hyd-23 | Meh-24 | Meh-26 |
| | Anturiaethau Cyfrifol | Ebr-24 | Awst-24 | Awst-25 |

Mae'r statws ar gyfer pob prosiect yn cael ei asesu yn erbyn y proffil hwn o Achos Busnes Portffolio 2022 oni bai bod amserlen newydd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais drwy achos busnes prosiect neu gais am newid. Bydd Achos Busnes Portffolio 2023 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais yn ystod mis Hydref, mae hyn yn cynnwys fersiwn wedi'i diweddaru o'r biblinell gyflawni.

# 10. Traciwr Amcanion – Trosolwg o gyflawni

| | | Targedau Achos Busnes Portffolio 2020*** | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/FBC** | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 50 | 80 | 7.3 | FBC | 12 | 33 | 3.0 | -38 | - 47 | - 4.3 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 35 | 150 | 4.0 | OBC | 15 | 130 | 4.0 | -20 | -20 | 0 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | 45 | 120 | 9.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | 35 | 0 | 21 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | 50 | 100 | 36 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 60 | 90 | 28.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Egni | 20 | 20 | 97.7 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 | 106.2 | OBC | 122 | 174 | 106 | +2 | -6 | 0 |
| | Trawsfynydd | 230 | 510 | 400 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | 220 | 360 | 43.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | 235 | 440 | 70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 20 | 50 | 74 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 30 | 50 | 6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | 545 | 930 | 80 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 25 | 40 | 13 | OBC | 45 | 96 | 13 | +20 | +56 | 0 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 20 | 0 | 12.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 | 29.9 | OBC | 33 | 61 | 14.7 | -12 | -9 | -15.2 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 | 9.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf | | 2,185 | 3,830 | 1,146 | 4OBC + 1 FBC | 227 | 494 | 140.7 | -48 | -26 | -19.5 |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio
** OBC – Achos Busnes Amlinellol, FBC – Achos Busnes Llawn
*** Targedau ar gyfer y prosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl yn dal wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm targedau'r Cynllun Twf.
****Ar ôl cymeradwyo Achos Busnes Portffolio 2023, bydd y traciwr Amcanion yn cael ei ddiweddaru.

# 11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Cyllideb Cyfalaf 2023/24

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 £m * | 2022/23 £m* | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m | 2031/32 £m | 2032/33 £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.39 | 0.79 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | Cysylltu'r Ychydig % Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.60 | 1.72 | 1.85 | 1.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.17 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 4.00 | 2.00 | 2.37 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 10.10 | 4.93 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.33 | 4.44 | 1.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.61 | 5.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| | Egni | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 3.00 | 9.25 | 9.25 | 1.63 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 2.96 | 4.92 | 9.85 | 5.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.70 |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy ** | Datblygiadau'r Economi | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.20 | 3.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.40 |
| | Hwb Hydrogen Caergybi** | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.90 | 1.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.48 | 4.48 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.38 | 7.39 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.74 | 6.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 1.40 | 17.24 | 15.83 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| | Stiwdio Kinmel** | Stage Fifty | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.40 | 3.40 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.80 |
| | Porth Wrecsam** | Cyngor Bwrdeistref Sirol | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.79 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.79 |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 4.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.13 | 2.30 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| | Anturiaethau Cyfrifol** | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.10 | 2.20 | 3.70 | 0.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 1.63 | 5.41 | 4.34 | 0.17 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.55 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 1.25 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | | | | | | | | | | | | | | Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio | 5.15 |
| | | | | | | | | | | | | | | Cyfanswm | 240.00 |

*proffil 2021/22 a 2022/23 yw'r gwariant gwirioneddol. Mae'r proffil sy'n weddill fel y rhagwelwyd yng Nghyllideb Cyfalaf 2023/24.*

*** Gwybodaeth dros dro ar gyfer y prosiectau newydd wedi'i chynnwys.*

# 12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Proffil 23/24 (£m) | YTD Gwirioneddol (£m) | Amrywiad (£m)* | Sail Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.39 | 0.00 | -0.39 | Mae un hawliad yn ddyledus ar gyfer y prosiect DSP yn ystod y flwyddyn. |
| | Cysylltu'r Ychydig % Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.60 | 0.00 | -0.60 | |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Egni | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy | Datblygiadau'r Economi Cylchol | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.74 | 0.00 | -0.74 | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 1.40 | 0.00 | -1.40 | |
| | Stiwdio Kinmel | Stage Fifty | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 1.63 | 0.00 | -1.63 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 1.25 | 0.00 | -1.25 | |
| | | Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio | 1.02 | 0.368 | -0.652 | |
| | | Cyfanswm | 7.13 | 0.368 | -6.762 | Gweler uchod |



* Variance is the difference between the planned profile (Portfolio Business Case 2023) and the Actual Year to Date (YTD) expenditure.

# ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf

| | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Uchelgais Gogledd Cymru | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Uchelgais Gogledd Cymru | Nod y prosiect yw ceisio gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth. Canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ffibr optig sy'n hanfodol ar gyfer darparu band eang 4G, 5G a gigabit. |
| | Campysau Cysylltiedig | Uchelgais Gogledd Cymru | Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | Buddsoddi mewn seilwaith i gysylltu â rhwydwaith y National Grid a monitro effeithiau amgylcheddol morol. Bydd hyn yn galluogi cynnydd yn y defnydd o dyrbinau gan ddatblygwyr morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Uchelgais Gogledd Cymru | Cefnogi cyflwyno prosiect enghreifftiol yn cynnwys cynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd mewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Uchelgais Gogledd Cymru | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy | The Circular Economy Ltd | Cynnig i greu cyfleuster i drosi 182,000 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd masnachol sydd ar y ffordd i dirlenwi/i gael ei losgi yn ynni a gwrtaith bio-methan gwyrdd, ynni a gwrtaith. |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | Bydd y prosiect yn adeiladu cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi, gan gynhyrchu oddeutu 2000+kg/y dydd o hydrogen gwyrdd, gan gyflenwi cwsmeriaid trafnidiaeth y ffordd, morwrol a rheilffordd ar draws Gogledd Cymru. |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Uchelgais Gogledd Cymru | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Uchelgais Gogledd Cymru | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Uchelgais Gogledd Cymru | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Uchelgais Gogledd Cymru | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Mae'r prosiect hwn yn ddatblygiad cynaliadwy o ardal fywiog wedi'i hadfywio, sy'n creu canolbwynt i gefnogi buddsoddiad busnes a hwb trafnidiaeth aml-weddog gyda chysylltiadau at deithio llesol. |
| | Stiwdio Kinmel | Stage Fifty | Bydd y prosiect hwn yn dylunio, adeiladu a gweithredu stiwdios ffilm a theledu ym Mharc Menter Tir Llwyd, ynghyd ag academi hyfforddi ac unedau deori. |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | Prosiect aml-elfen fel rhan o becyn twristiaeth gynaliadwy ac eco-dwristiaeth gan gynnwys Car Cebl newydd a chynaliadwy, Slate Explorer gan gynnwys platfform gwylio i ymwelwyr a Rhwydwaith eFws. |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

## COFRESTR RISG PORTFFOLIO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg P | Graddfa Risg I | Graddfa Risg Sgôr | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg P | Graddfa Risg I | Graddfa Risg Sgôr | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R003 | 21.10.2020 | Ariannol | Fforddiadwyedd | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os bydd costau'r prosiectau yn cynyddu, ceir risg na fyddent yn bwrw ymlaen neu efallai y byddai angen lleihau sgôp y prosiectau. | 5 | 5 | 25 | ↔ | Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli costau.<br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br>Unwaith y bydd yr Achosion Busnes Prosiect wedi'u cymeradwyo, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gyfrifoldeb ar Ariannwr y Prosiect ac fe ystyrir opsiynau ariannu amgen.<br>Trafodaethau parhaus gyda'r DU/LIC ar strategaeth liniaru i reoli risg costau cynyddol<br>Cronfa Cyflawni'r Portffolio wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais gyda cheisiadau i newid i'w cyflwyno ar gyfer prosiectau perthnasol ym mis Chwefror 2023.<br>PMO yn ymgysylltu gyda noddwyr ar lefel prosiect i adnabod ffyrdd o liniaru'r cynnydd mewn costau. | N/A<br>Misol<br>N/A<br>Misol<br>Yn ei le<br>Misol | PMO, Ariannwr y Prosiect<br>PMO<br>PMO<br>PMO<br>PMO<br>PMO | 4 | 4 | 16 | ▼ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 05/10/23 |
| R016 | 22.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Sicrwydd | Rheolwr Gweithrediadau | Os na chaiff prosesau sicrwydd y cytunir arnynt eu dilyn, ceir risg y gallai cymeradwyo prosiectau gael ei effeithio a gallai arwain at atal/gohirio taliadau grant y llywodraeth. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r Cynllun Twf Terfynol.<br>Parhau i ymgysylltu â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i fireinio a diweddaru'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP)<br>Arweinydd sicrwydd y PMO i gydlynu cyflawni sicrwydd yn unol â'r IAAP | Wedi cwblhau<br>Chwarterol<br>N/A | PMO<br>PMO<br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 05/10/23 |
| R015 | 22.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Gwireddu Buddion | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddion prosiectau eu gwireddu, ceir risg y gallai'r Cynllun Twf yn gyffredinol fethu gwireddu'r buddion sydd wedi'u nodi o fewn yr achosion busnes. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Bydd pob rhaglen a phrosiect yn gyfrifol am reoli buddion drwy Gynllun Gwireddu Buddion.<br>Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen i fonitro gwireddu buddion<br>Egwyddorion Caffael wedi'u mabwysiadu gyda ffocws ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol<br>Canllawiau Gwireddu Buddion wedi'u datblygu ac yn cael eu dosbarthu i arianwyr prosiectau i'w defnyddio yn achosion busnes y prosiectau | N/A<br>Misol<br>Wedi cwblhau<br>N/A | PMO, SROs y Rhaglenni a'r Prosiectau<br>PMO<br>PMO<br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Risg gweddilliol wedi cynyddu. Nifer o brosiectau yn wynebu oedi fydd yn cael effaith ar amseru gwireddu buddion. Bydd yn cael ei adolygu fel rhan o ddiweddariad yr Achos Fusnes y Portffolio 2023. | 05/10/23 |
| R001 | 21.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad oes adnoddau digonol yn eu lle ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect, mae risg y gallai hyn effeithio ar gyflawni'r cynllun twf yn llwyddiannus. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i ymestyn contractau tymor penodol hyd fis Mawrth 2024. Y mwyafrif o'r Tîm PMO yn ei le<br>Capasiti caffael a chyfreithiol technegol ychwanegol i'w sicrhau ar gyfer prosiectau fel sydd angen<br>PMO i ddefnyddio cefnogaeth dechnegol allanol pan fo angen<br>PMO yn cefnogi partneriaid i sicrhau capasiti i gyflawni a chefnogi gweithgaredd recriwtio<br>Trefniadau ôl-lenwi yn eu lle i reoli effaith secondiad rhan amser y Cyfarwyddwr Portffolio i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig<br>Bid SPF yn cynnwys cyfraniad tuag at rai costau PMO presennol<br>Cymeradwyeth i'r cais i'r ddwy Lywodraeth yn gofyn am gynyddu'r haenen uchaf o 1.5% i 2% a galluogi'r PMO i gael at gyllid ychwanegol drwy gyllideb y Cynllun Twf<br>Recriwtio ar gyfer y swydd Rheolwr Rhaglen Ynni. | Yn ei le<br>Parhaus<br>Adolygu'n fisol<br>Adolygu'n fisol<br>Yn ei le<br>Mawrth 2023<br>Yn ei le<br>Mehefin/Gorffennaf 2023 | PMO<br>PMO<br>PMO<br>PMO, Arianwyr y Prosiectau<br>PMO<br>PMO<br>PMO<br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae capasiti yn parhau i fod yn risg gyda nifer o swyddi gwag yn y tîm. Er hynny mae ymgyrch recriwtio wedi lansio i lenwi y swyddi a dylid gweld y risg yn lleihau chwarter nesaf. | 05/10/23 |
| R006 | 21.10.2020 | Amgylcheddol | Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad yw prosiectau yn ystyried allyriadau carbon neu golli bioamrywiaeth mewn asesiadau lefel prosiect, mae yna risg y gallai'r portffolio gyfrannu at broblemau megis newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. | 4 | 3 | 12 | ↔ | Datganiad sefyllfa ar Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth wedi'i fabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais.<br>Achosion Busnes y Prosiectau i arddangos cyflawni yn erbyn y sefyllfa y mae'r Bwrdd Uchelgais wedi'i fabwysiadu.<br>Methodoleg ar sut i ystyried allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth mewn achosion busnes prosiectau bellach wedi'i chyhoeddi a'i rhannu gyda'r holl brosiectau. | N/A<br>N/A<br>Yn ei le | BWRDD UCHELGAIS<br>PMO/SROs y Prosiect<br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Cario ymlaen i weithredu'r fethodoleg a'r hyfforddiant cysylltiedig | 05/10/23 |
| R002 | 21.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Oediad | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os oes oedi i gyflawni prosiectau, mae yna risg y gallai hyn gael effaith ar wireddu buddion neu gallai olygu bod prosiectau ddim yn symud ymlaen. | 5 | 5 | 25 | ↔ | Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen gyda llwybrau dyrchafu i'r Bwrdd Uchelgais.<br>Log RAID rhaglenni a phrosiectau yn eu lle i gofnodi risgiau a rheoli materion.<br>Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru.<br>Adroddiadau Chwarterol i'r Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Portffolio.<br>Amserlenni prosiectau wedi'u hadolygu fel rhan o Achos Busnes y Portffolio 2022.<br>Cronfa Cyflawni Prosiectau wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais gyda cheisiadau i newid i'w cyflwyno ar gyfer prosiectau perthnasol ym mis Chwefror 2023.<br>PMO yn gweithio gyda ariannwyr prosiectau i adnabod cyfleoedd i leihau oedi ac lle nad oes modd osgoi oedi i leihau yr effaith. | Misol<br>Misol<br>N/A<br>Chwarterol<br>Yn ei le<br>Chwe 2023<br>Yn ei le | PMO<br>PMO, Ariannwr y Prosiect<br>Noddwr y Prosiect<br>Noddwr y Prosiect<br>PMO<br>PMO, Ariannwr y Prosiect<br>PMO, Arianwyr prosiectau | 5 | 4 | 20 | ↔ | Agored | Wedi adolygu'r risg. Dim newid i'r sgôr. Mae nifer o'r prosiectau yn wynebu oediad sydd yn cael effaith ar amseru gwireddu buddion. | 05/10/23 |

| Rhif Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg | | | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R020 | 03.10.2022 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Y Cyd-destun Economaidd | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os oes newidiadau sylweddol i economi'r DU (e.e. yr argyfwng costau byw a'r argyfwng diogelwch ynni), gall hyn effeithio'n andwyol ar achosion strategol ac economaidd rhaglenni a phrosiectau. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau, yn cynnwys effaith datblygiadau economaidd diweddar | N/A | PMO, Arianwyr y Prosiectau | 2 | 5 | 10 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 05/10/23 |
| R017 | 22.10.2020 | Ariannol | Rheolaeth Ariannol | Swyddog a151 | Os na chaiff trefniadau ariannol priodol eu rhoi yn eu lle, yna gallai cyflawni'r cynllun twf, tynnu arian grant i lawr a chlustnodi cyllid fod mewn perygl. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Bydd y Bwrdd Uchelgais yn defnyddio prosesau ariannol presennol Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya<br><br>Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli cyllid<br><br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol misol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br><br>Proses hawliadau ariannol gadarn wedi'i sefydlu ar gyfer tynnu arian i lawr | N/A<br><br>N/A<br><br>Misol<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 05/10/23 |
| R014 | 22.10.2020 | Ariannol | Twyll | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff prosesau priodol eu rhoi yn eu lle a'u rheoli, yna gallai'r portffolio fod yn ddarostyngedig i hawliadau twyllodrus a fyddai'n arwain at gamddefnydd o gyllid cyhoeddus. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Prosiectau i gael prosesau monitro ariannol cadarn yn eu lle<br><br>PMO i adolygu'r hawliadau a gyflwynir cyn eu pasio nhw at y corff atebol i'w talu<br><br>Cod ymddygiad a pholisi gwrthdaro buddiannau wedi'u hymgorffori fel rhan o Gytundeb Llywodraethu 2<br><br>Caiff Cofrestr Gwrthdrawiad Buddiannau ei gadw ar gyfer pob rhaglen, prosiect a'r grwpiau ymgynghorol | N/A<br><br>N/A<br><br>Wedi cwblhau<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>Swyddog Monitro<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 05/10/23 |
| R009 | 21.10.2020 | Rheoleiddio | Caniatâd Cynllunio a Statudol | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad yw prosiectau'n derbyn y caniatâd statudol a'r gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol, ceir risg na fydd y prosiectau yn cael eu cyflawni ac na chaiff y buddion eu gwireddu. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Bydd achosion busnes prosiectau cadarn yn nodi'r gofynion caniatâd ar gyfer pob prosiect a'r risgiau i gyflawni'r prosiect<br><br>Parhau i ymgysylltu ag arianwyr y prosiectau i ddeall y broses caniatâd a'r risgiau gyda'r gefnogaeth a ddarperir lle bo hynny'n briodol<br><br>Strategaeth ffosffadau awdurdodau lleol yn ei lle fel rhan o fabwysiadu Cynllun Lleol.<br><br>PMO wedi cyflawni adolygiad o gynnydd cymeradwyo prosiectau ar gyfer pob prosiect ac wrth symud ymlaen, bydd yn adrodd i'r Bwrdd Uchelgais bob chwarter<br><br>Adolygiad gwersi a ddysgwyd i'w gyflawni ar ôl oedi gyda chymeradwyo ar lefel prosiect<br><br>Y Cadeirydd ac/neu Cyfarwyddwr Portffolio i ysgrifennu i'r awdurdodau caniatau i amlygu'r effaith o oedi mewn penderfyniadau pan mae risgiau unigolo prosiect yn cael ei uchafu. | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>Haf 2023<br><br>Yn ei le<br><br>Fel bo'r angen | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>PMO<br><br>PMO, Arianwyr y Prosiectau<br><br>Cyfarwyddwr Portffolio | 4 | 5 | 20 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiad i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae caniatad yn parhau i fod yn risg uchel, er hynny mae cymeradwyeth Gorchymyn Adolygu Harbwr Caergybi yn dileu risg sylweddol o ganiatad i brosiect. | 05/10/23 |
| R013 | 21.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Newid Gwleidyddol | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff rhanddeiliaid eu rheoli'n effeithiol, ceir risg y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol.<br><br>GA2 a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymiadau'r holl bartïon.<br><br>Aelodau newydd i gael eu briffio ar Bortffolio'r Cynllun Twf yn dilyn y newid mewn arweinyddiaeth<br><br>Ymgysylltu â Gweinidogion newydd Llywodraeth y DU | N/A<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Parhaus | Y BWRDD UCHELGAIS, PMO<br><br>Y BWRDD UCHELGAIS<br><br>PMO<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 05/10/23 |
| R007 | 21.10.2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Preifat | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector preifat ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Parhau i ymgysylltu ag Arianwyr y Prosiectau a phartneriaid sector preifat<br><br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf<br><br>Lansio'r broses prosiect ar gyfer adnabod prosiectau Cynllun Twf yn lle rhai eraill<br><br>Yn dilyn yr argymhelliad PAR, mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu gyda gwaith pellach i'w gomisiynu ddechrau 2023 | N/A<br><br>N/A<br><br>Chwe 2023<br><br>Mawrth 2023 | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>Y BWRDD UCHELGAIS, PMO<br><br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae diogelu buddsoddiad sector breifat ar gyfer y Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg uchel, er hynny mae'r safbwynt wedi gwella gyda'r dewis o bum prosiect newydd drwy'r broses prosiectau newydd. | 05/10/23 |
| R008 | 21.10.2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector cyhoeddus ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Mae holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais wedi llofnodi'r Cynllun Twf a Chytundeb Llywodraethu 2.<br><br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf | Wedi cwblhau<br><br>N/A | BWRDD UCHELGAIS<br><br>PMO/SROs y Prosiect | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu'r risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 05/10/23 |
| R018 | 01.10.2020 | Ariannol | Cyllid refeniw | Swyddfa Rheoli Portffolio ac Arianwyr y Prosiect | Os na fydd cyllid refeniw digonol yn ei le i gefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais a chyflawni'r Cynllun Twf, yna mae'n bosib yr effeithir ar gyflawniad prosiectau a chyrraedd amcanion gwario a buddion. | 4 | 5 | 20 | ▲ | Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymestyn contractau tymor penodol i fis Mawrth 2024. Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy<br><br>Partneriaid ac arianwyr prosiectau yn gyfrifol am sicrhau cyllid refeniw i gefnogi prosiectau nad ydynt yn cael eu harwain gan y Bwrdd Uchelgais<br><br>PMO yn gweithio i adnabod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais<br><br>PMO yn edrych ar gyfalafu posib costau cyflog y prosiectau.<br><br>Haenen uchaf y Cynllun Twf wedi ei gynyddu i 2%, a galluogi ymestyn cytundebau dros dro hyd at Mawrth 2025<br><br>Cais SPF i'r 5 Awdurdod Lleol wedi bod yn llwyddiannus, cais ar wahan yn cael ei ddrafftio ar gyfer Wrexham. | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>Mai 2023<br><br>Medi 2023 | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO, Bwrdd Portffolio<br><br>PMO | 3 | 4 | 12 | ▼ | Agored | Mae'r sefyllfa refeniw wedi gwella drwy gynnydd yn yr haenen uchaf i 2.15% ac diogelu arian drwy SPF. | 05/10/23 |

North Wales Economic Ambition Board

| Rhif / Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg | | | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R010 | 21.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Amcanion Gwariant | Cyfarwyddwr Portffolio | Os yw prosiectau'n methu cyflawni yn erbyn amcanion gwario'r portffolio, yna ceir risg na fydd y Cynllun Twf yn bodloni ei dargedau mewn perthynas â chynhyrchu swyddi, GVA a buddsoddiad. | 5 | 4 | 20 | ↔ | Datblygir achosion busnes cadarn ar gyfer pob rhaglen a phrosiect yn unol â'r Model Pum Achos Busnes a bydd angen nodi y cyfraniad i dargedau amcanion gwariant y portffolio<br><br>Proses adolygu prosiect a rheoli newid yn ei lle.<br><br>Lansio'r broses i adnabod prosiectau Cynllun Twf yn lle rhai eraill.<br><br>Yn dilyn yr argymhelliad PAR, mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu | N/A<br><br>N/A<br><br>Chwefror 2023<br><br>Yn ei le | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO<br><br>Y BWRDD UCHELGAIS, PMO<br><br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 05/10/23 |
| R019 | 01.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad oes gan y gadwyn gyflenwi ranbarthol gapasiti i gyflawni prosiectau, yna gellid effeithio ar gyflawniad prosiectau a gallai buddion rhanbarthol fod yn is. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru, yn cynnwys risgiau cadwyn gyflenwi.<br><br>RSP yn gweithio gyda'r PMO i adnabod heriau sgiliau / cadwyni cyflenwi rhanbarthol ac adnabod mesurau lliniaru<br><br>Cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer gweithgaredd sgiliau<br><br>Prosiectau i gynnal ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar lle bo hynny'n briodol | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>Arianwyr y Prosiectau | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 05/10/23 |

**Rheoleiddio**
**Amgylcheddol**
**Ariannol**

**Effaith Cymdeithasol ac Enw da**
**Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau**
**Iechyd a Diogelwch**

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**
**27 Hydref 2023**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC)<br>- Ymestyn secondiad rhan-amser Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais fel Prif Weithredwr dros dro y CBC |
| **AWDUR:** | Dylan J Williams, Prif Weithredwr Arweiniol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer y Bwrdd Uchelgais |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Fe gofiwch i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) gyflwyno dau gais yn ystod y flwyddyn diwethaf i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ryddhau rhan o amser ei Gyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC ar sail dros dro tan Mawrth 2023 yn y lle cyntaf ac yna ymhellach hyd at ddiwedd Medi 2023. Cymeradwywyd y naill gais ac yna'r llall yng nghyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais ar 30 Medi 2022 ac yna ar y 23 o Fawrth, 2023. Mae'r adroddiad hon yn cyflwyno cais pellach (a ragwelir i fod yn un terfynol) gan Gyd-Bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (CBC), i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gytuno i ymestyn cyfnod y secondiad hwnnw, am ddau ddiwrnod yr wythnos, hyd at y 31 Mawrth, 2024.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd Uchelgais yn ystyried yr argymhellion a ganlyn:

- Bod y Bwrdd Uchelgais yn cefnogi ymestyn y trefniant i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos tan 31 Mawrth 2024 er mwyn parhau i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr ar sail dros dro.
- Bod yr holl gyflogaeth gysylltiedig a'r costau cysylltiedig yn parhau i gael eu hysgwyddo gan CBC y Gogledd

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Gan ystyried penderfyniad mewn egwyddor y Cynghorau i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gynorthwyo rhanbarth y Gogledd i sefydlu'r CBC, a sicrhau bod buddiannau'r Bwrdd Uchelgais yn cael eu diogelu wrth i'r CBC symud ymlaen.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd adolygu rôl y Prif Weithredwr ac, ar ôl ystyried yr opsiynau, penderfynu cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ryddhau rhan o amser ei Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd Bwyllgor Corfforedig, o leiaf hyd at 31 Mawrth 2023. Fel ag y nodwyd eisioes cytunodd y Bwrdd Uchelgais i'r cais hwnnw yn ei gyfarfod ar y 30 Medi, 2022.

4.2 Dewiswyd yr opsiwn o gyflwyno’r cais yma i’r Bwrdd Uchelgais gan ei fod yn debygol bydd y Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori’n rhan o’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, y byddai cost sylweddol uwch pe bai swydd Prif Swyddog annibynnol wedi’i greu, a gan nad oes digon o amser ar gael i un o'r 6 Prif Weithredwr awdurdod lleol oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

4.3 Mae secondiad rhan-amser y Cyfarwyddwr Portffolio yn sicrhau bod y Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf yn parhau i gael eu cyflawni yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio hwnnw, gydag unrhyw gynnwrf yn cael ei leihau i'r eithaf.

4.4 Mae angen cyfraniad Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais i sefydlu'r CBC mewn perthynas a chydlynu’r swyddogaeth Lles Economaidd beth bynnag, ac felly mae ymestyn y trefniant hwn drwy gyfrwng y secondiad rhan-amser, yn caniatáu canolbwyntio ar yr ymwneud hwnnw ac yn osgoi dyblygu adnoddau.

4.5 Mae’r penderfyniad mewn egwyddor, i drosglwyddo y Bwrdd Uchelgais i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, eisoes wedi ei wneud gan y Cynghorau ac yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol diweddar bydd modd mynd i'r afael â’r broses yma yn ystod y misoedd nesaf. Fel rhan o unrhyw drosglwyddiad bydd sefyllfa holl staff y Swyddfa Portffolio yn cael ei gyfarch.

4.6 Mae’r Bwrdd Uchelgais, drwy Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lletya, yn parhau’n gyflogwr cytundebol i Alwen Williams ac mae’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn digolledu’r Bwrdd Uchelgais am y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r secondiad.

4.7 Yn ei gyfarfod ar y 24 o Fawrth, 2023, cytunodd y Bwrdd Uchelgais i'r cais i ymestyn cyfnod secondiad y Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rol Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig hyd at 30 Medi, 2023.

4.8 Yn wyneb y ffaith bod nifer o faterion allweddol yn parhau i fod angen sylw pellach cyn y gall y Cyd-Bwyllgor Corfforedig benodi Prif Weithredwr ar sail parhaol e.e. trosglwyddiad tebygol staff i gyflogaeth y Cyd-Bwyllgor, mae angen ail-ymweld a’r penderfyniadau a wnaed.

4.9 O dan yr amgylchiadau hyn, mae angen i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig sicrhau Prif Weithredwr ar sail dros-dro ac felly, gyda chydsyniad y Bwrdd Uchelgais, argymhellir bod cyfnod secondiad Alwen Williams i'r swydd honno yn cael ei ymestyn tan 31 Mawrth, 2024 ar sail yr amodau presennol.

4.10 O dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i ryddhau’r Cyfarwyddwr Portffolio am gyfnod pellach ar sail y telerau presennol, bydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ystyried argymhelliad i ymestyn hyd penodiad Alwen Williams yn ei gyfarfod yn ddiweddarach ar y 27 o Hydref, 2023.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Cadarnheir y byddai’r estyniad arfaethedig i’r secondiad rhan-amser hwn yn gost niwtral net ar gyfer y Bwrdd Uchelgais gyda’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ymgymryd a’r gost berthnasol.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi'i sefydlu yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 i weithredu fel y corff sy'n gwneud penderfyniad ar gyfer y bartneriaeth o awdurdodau lleol a'r cyrff addysg i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Weledigaeth Twf. Caiff ei swyddogaethau a'r deilliannau y mae eu hangen i gyflawni wedi'u diffinio gan y cytundeb a'r Cynllun Busnes Cyffredinol a gwblhawyd law yn llaw â'r Cynllun Twf. Mae gofyn iddo hefyd benodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i Arwain y Swyddfa Portffolio.

6.2. Er hynny, cafodd dyfodiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ei ragarwyddo yn GA2 a chyfeirir ato'n benodol fel mater sydd wedi'i gadw i'r Cynghorau. Mae darpariaeth benodol yn y cytundeb sy'n cydnabod y bwriad i greu'r CBC ac y gallai trosglwyddo swyddogaethau ddigwydd. Adlewyrchir hyn yn y penderfyniad 'mewn egwyddor' gan y chwe Weithrediaeth ym mis Rhagfyr 2021 i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd uchelgais i'r CBC ar yr amod bod y model a'r fframwaith statudol yn eu lle i gyflawni hyn. Mae'r CBC bellach wedi'i sefydlu ac mae'r model statudol wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, ar y pwynt hwn, mae'r gwaith o greu'r CBC fel corff cyhoeddus gweithredol gyda threfniadau llywodraethu a rheoli yn parhau. Mae angen i'r gwaith hwn adlewyrchu a pharatoi ar gyfer derbyn rôl y Bwrdd Uchelgais i mewn i'r CBC a'i fodel llywodraethu.

6.3. Yn nhermau GA2, nid yw estyniad arfaethedig y secondiad yn ei gwneud hi'n ofynnol i adnoddau a chyfraniadau'r Bwrdd Uchelgais gael eu cyfrannu i gefnogi'r CBC. Yn ogystal, mae darpariaeth yn y cyfamser i gynnal capasiti i gefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais. Mae hi hefyd yn berthnasol bod angen i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC gael ei gynllunio'n briodol ac y darperir adnoddau priodol ar ei gyfer i sicrhau y gellir ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon.

---

**ATODIADAU:**

Dim

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

Rwyf wedi cael mewnbwn i’r adroddiad ac yn fodlon gyda priodoldeb yr argymhellion

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

Credaf fod yr hyn a gynigir yn cynnig datrysiad pragmatig er mwyn ymdrin â’r sefyllfa. Gallaf gadarnhau fod trefniadau yn eu lle i ad-dalu Uchelgais Gogledd Cymru am amser y Cyfarwyddwr Portffolio pan mae’n ymgymryd â rôl Prif Weithredwr y Cydbwyllgor Corfforedig. Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.